Cân William Ellis Williams

I ffwrdd a ti i chwarae

Oedd geiriau'i fam a'i dad

Dos i ben Moel Faban

I weld mor hardd yw'r wlad

Ond sleifio'n slei wnaeth William

I mewn i'r sied ar garlam

I weithio a phendroni, - a gwirioni…

…ar y rhifau, patrymau

Syniadau, adeiladau,

Peiriannau, trionglau

Problemau, mesuriadau di-ri…

Roedd ei ben o'n y cymylau bach gwynion

Yn meddwl am syniadau bach gwirion

Yn creu pethau rhyfedd yn llawn o olwynion,

Roedd y llanc o Dyddyn Canol

Yn fachgen go wahanol…

Yna draw i Fangor

I'r coleg ar y bryn

Ei ben yn llawn syniadau

A'i wyneb bach yn wyn

Ond i selar yr hen goleg

Aeth William a'i dechnoleg

I weithiau a phendroni,.. a gwirioni!

…ar y rhifau, patrymau

Syniadau, adeiladau,

Peiriannau, trionglau

Problemau, mesuriadau di-ri…

Roedd o'n hedfan drwy'r cymylau bach gwynion

Yn edrych i lawr ar y traethau melynion

Mae Wil yn glamp o Seren

Mae o wedi creu awyren!

Roedd o'n hedfan drwy'r cymylau bach gwynion

Yn edrych i lawr ar y traethau melynion

Mae Wil yn glamp o Seren

Mae o wedi creu awyren!